EIS(5)-10-19(P1)

Ken Skates AC/AM
Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth
Minister for Economy and Transport

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

Russell George AC
Cadeirydd Pwyllgor yr Economi,
Seilwaith a Sgiliau

SeneddEIS@assembly.wales

15 Mawrth 2019

Annwyl Russell,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 15fed Chwefror ynghylch sesiynau pwyllgor mis Ionawr ar Fargeinion Dinesig a Thwf i Gymru, a'ch sylwadau a'r ceisiadau am ragor o wybodaeth. Byddaf yn ymdrin â'r meysydd rydych chi wedi'u nodi fel rhai ar gyfer Llywodraeth Cymru yn eu tro.

Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd

Mae fy swyddogion a minnau mewn cysylltiad rheolaidd â thîm arwain Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Yn fwyaf diweddar, fe wnes i gwrdd â Chadeirydd y Cabinet Rhanbarthol ar 18fed Chwefror i atgyfnerthu'r ymrwymiad i weithio'n agos i sicrhau cysondeb ac integreiddio.

Bargen Ddinesig Bae Abertawe

Rydym wedi astudio argymhellion yr adolygiad annibynnol o'r trefniadau Llywodraethu, ac mae Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru wedi trafod adroddiad yr adolygiad gydag Arweinwyr y Fargen Ddinesig. Cyhoeddwyd adroddiad yr adolygiad heddiw, ynghyd ag ymateb y Llywodraeth ar y cyd, ac maen nhw ar gael drwy ddilyn y ddolen hon: https://beta.gov.wales/adolygiad-annibynnol-bargen-ddinesig-bae-abertawe

Mae Bargen Ddinesig Bae Abertawe wedi'i strwythuro'n wahanol i Fargen Caerdydd, gan ei bod yn seiliedig ar brosiect. Mae swyddogion y ddwy lywodraeth wedi bod yn adolygu'r achosion busnes drafft ochr yn ochr ar gyfer nifer o'r prosiectau, ac maen nhw wedi bod yn gweithio gyda'r Swyddfa Ranbarthol i ddatblygu elfennau eraill fel y fframwaith monitro a gwerthuso.

Bargen Twf y Gogledd

Rwyf wedi datgan yn glir o'r dechrau bod Llywodraeth Cymru yn gobeithio cyd-fuddsoddi yn y fargen ar delerau gweddol gyfartal â Llywodraeth y DU. Wrth gwrs, dylid cadw mewn cof nad yw cyfraniad Llywodraeth Cymru at y fargen twf ond yn adlewyrchu rhan o'n buddsoddiad cyffredinol yn y Gogledd mewn meysydd fel trafnidiaeth, sgiliau, arloesi, cysylltedd TGCh, datblygu gwledig, adfywio, twristiaeth a chefnogi busnesau o bob maint. Rydym hefyd am weld y Bwrdd Uchelgais yn sicrhau ffynonellau ariannu eraill gan gynnwys buddsoddiad sector preifat, gan fod sicrhau bod y sector preifat yn gwbl gefnogol i'r cynigion yn parhau i fod yn fater allweddol.

Yn dilyn cyhoeddi atal prosiect Wylfa Newydd, cytunodd y Bwrdd Uchelgais Economaidd i adolygu'r pecyn presennol o gynigion i sicrhau ei fod yn parhau i gynnwys y cymysgedd cywir o fuddsoddiadau i fynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd economaidd sy'n wynebu'r rhanbarth. Rydym yn aros am ganlyniad yr adolygiad hwn gan y Bwrdd Uchelgais Economaidd ac rydym yn barod i ddefnyddio pa adnoddau bynnag sydd eu hangen i sicrhau ein bod ni i gyd yn symud ymlaen gyda'n gilydd yn ddi-oed.

Bargen Twf y Canolbarth

Rwyf wedi cwrdd â Chadeirydd ac Is-gadeirydd Partneriaeth Tyfu'r Canolbarth yn ddiweddar, ac er nad ydym wedi cael cynnig gan y rhanbarth eto, rwy'n cael fy nghalonogi ein bod yn dechrau gweld ychydig o gynigion amlinellol cychwynnol â photensial yn cael eu cyflwyno. Fodd bynnag, rwy'n cydnabod bod llawer o waith eto i'w wneud cyn y gallwn ni ymrwymo i Fargen ac rwyf wedi annog y rhanbarth i rannu eu syniadau sy'n esblygu â ni wrth iddynt godi a datblygu.

O ran amserlenni, mae'r cynnig presennol yn uchelgeisiol ond rwyf wedi annog y rhanbarth i weithio'n agos â'm swyddogion yn hyn o beth, ynghyd â'r rhai o Lywodraeth y DU, i wneud yn siŵr bod y Fargen yn seiliedig ar gynnig bid o ansawdd. Rwyf wedi atgoffa'r Arweinwyr ei bod hi'n bwysig ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys y sector preifat, er mwyn llywio'r gwaith o ddatblygu a chyflwyno'r Fargen arfaethedig.

Rwy'n croesawu'r trafodaethau i ddatblygu llais cryf yn y Canolbarth ar gyflogadwyedd a sgiliau ac rwy'n cydnabod ei bod hi'n bwysig rhoi hunaniaeth benodol i'r Canolbarth yng Nghynllun Cyflogaeth a Sgiliau Rhanbarthol De-orllewin a Chanolbarth Cymru.

Cynhaliwyd sawl cyfarfod gyda'r Cynghorydd Ellen ap Gwynn a'r Prif Swyddogion Gweithredol priodol yng Nghyngor Sir Ceredigion, yn fwyaf diweddar Eifion Evans. Mae arweinydd a Phrif Swyddog Gweithredol Cyngor Sir Powys hefyd wedi bod yn bresennol mewn dau o'r cyfarfodydd hyn. Mae cyfarfod wedi'i drefnu ar gyfer dydd Mawrth 9fed Ebrill rhwng Prif Weithredwr Cyngor Sir Ceredigion, Huw Morris (Llywodraeth Cymru) a Barry Liles (Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol De-orllewin a Chanolbarth Cymru) i drafod y trefniadau presennol a chynlluniau ar gyfer y dyfodol.

Rwyf wedi darparu cyllid ar gyfer dadansoddiad o sgiliau'r Canolbarth, dan arweiniad Prifysgol Aberystwyth. Bydd yr astudiaeth yn galw ar ffynonellau presennol o wybodaeth am y farchnad lafur ac fe fydd angen ei datblygu gyda gwybodaeth am flaenoriaethau economaidd y rhanbarth a meysydd ar gyfer twf posib. Diben yr astudiaeth hon fydd nodi anghenion sgiliau yn y Canolbarth a chyflwyno sylfaen dystiolaeth gadarn ar gyfer y ddarpariaeth sgiliau yn yr ardal. Bydd yr astudiaeth yn cyflwyno adroddiad i Lywodraeth Cymru yn y Gwanwyn 2019.

Rwyf hefyd wedi comisiynu adolygiad annibynnol o Bartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol, dan arweiniad SQW, sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd. Bydd yr adolygiad yn ystyried dulliau llywodraethu ac atebolrwydd y tair Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol, yn adolygu cysondeb ar draws y tair partneriaeth ac yn profi eu cydnawsedd â strwythurau'r Fargen Ddinesig/Bargen Twf (gan gynnwys Tyfu'r Canolbarth), yn ogystal ag adolygu cymhwysedd y Partneriaethau a'u gallu i asesu angen a dylanwadu ar y ddarpariaeth sgiliau yn eu rhanbarthau priodol. Bydd canfyddiadau'r adolygiad yn cyfrannu at adroddiad i Lywodraeth Cymru, a fydd yn rhoi argymhellion clir ar sut y gellir cryfhau atebolrwydd ac effaith y Partneriaethau fel llais strategol rhanbarthau mewn perthynas â chyflogadwyedd a sgiliau.

Cwestiynau cyffredin ar draws yr holl Fargeinion

<u>Cyllid cyfalaf – a fydd gwaddol sylweddol yn cael ei greu?</u>

Mae Bargeinion Twf a Dinesig yn cynnig cyfle i Gymru a'n rhanbarthau fanteisio ar gyllid ychwanegol gan Lywodraeth y DU er mwyn cefnogi dulliau ymyrryd a all sbarduno twf economaidd. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi'n glir nad dulliau o gyflenwi prosiectau a'u cyllido yw'r Bargeinion. Maent yn ddulliau allweddol o greu fframwaith a fydd yn galluogi rhanbarthau i sbarduno ffordd newydd o gydweithio, pennu blaenoriaethau fel llais unigol a fydd yn cefnogi uchelgeisiau ac amcanion economaidd rhanbarthol ac yn cyflawni swyddogaethau allweddol ar lefel strategol.

Mae'n bwysig cydnabod bod Bargeinion yn cael eu harwain gan uchelgeisiau awdurdodau lleol ac maent yn seiliedig ar gydweithredu rhanbarthol ymysg rhanddeiliaid sy'n pennu eu blaenoriaethau ar gyfer sbarduno twf economaidd cynaliadwy. Mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn llofnodi'r Bargeinion, ond cafodd Bargeinion Twf a Dinesig eu sefydlu ar sail yr egwyddor allweddol y byddai'r partneriaid lleol yn datblygu ac yn cyflawni cynigion a fydd yn creu twf economaidd rhanbarthol. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gydweithio'n agos â phartneriaid y Bargeinion a bydd yn sicrhau bod awdurdodau lleol yn derbyn pob cymorth yn ystod y prosesau adolygu, gan adlewyrchu gofynion penodol pob Bargen.

Bydd parhad cyllid gan y Llywodraeth ar gyfer Bargen Ddinesig Dinas-Ranbarth Caerdydd yn amodol ar fodloni'n foddhaol 'Adolygiadau Porth' bob 5 mlynedd, gan sicrhau atebolrwydd lawn am yr arian cyhoeddus sy'n cael ei wario gan y rhanbarth. Fel rhan o'r asesiad porth hwn bydd adolygiad annibynnol yn gwerthuso'r manteision economaidd a hefyd effaith economaidd y buddsoddiadau a wneir o dan y cynllun. Bydd hyn yn cynnwys ystyried a yw'r prosiectau wedi'u cyflawni'n brydlon ac o fewn eu cyllidebau.

Mae Bargen Ddinesig Bae Abertawe yn cynnwys trefniadau gwahanol ar gyfer monitro cyflenwi, ac ni fydd Asesiad Porth ffurfiol.

<u>Sut y mae Bargeinio yn cyd-fynd â strategaethau economaidd rhanbarthol a chenedlaethol</u>

Rydym am sicrhau bod unrhyw Fargen yn adlewyrchu blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ac yn cyfrannu at ein hagenda polisi, gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, Ffyniant i Bawb a'n Cynllun Gweithredu ar yr Economi.

Mae'n hollbwysig bod y Bargeinion yn dangos budd i'r rhanbarth cyfan a'u bod yn weddnewidiol, yn ddyheadol ac yn uchelgeisiol hefyd. Mae'n rhaid iddynt ddangos ychwaneged a dylent gynnig rhywbeth newydd.

Bydd yn rhaid seilio unrhyw gynigion ar dystiolaeth, a dangos ymagwedd ranbarthol strategol unedig sy'n arloesol ac yn gydnaws â chyfleoedd y rhanbarthau, a rhaid iddynt hefyd fynd i'r afael ag unrhyw rwystrau.

Posibilrwydd creu 'silos twf'

Rydym yn ymwybodol o'r berthynas rhwng y gwahanol Fargeinion yng Nghymru, ac mae'n rhaid i'r rhanbarthau weithio gyda'i gilydd mewn modd cydnaws. Mae'n rhaid i'r Bargeinion fod yn wahanol a pheidio â chystadlu yn erbyn ei gilydd; mae'n rhaid iddyn nhw hefyd gyd-fynd â gweithgareddau sy'n cael eu rhoi ar waith ar lefel genedlaethol. Dyna pam mae Prif Swyddogion Rhanbarthol mewn cysylltiad agos â'r timau Bargeinion Dinesig a Thwf yn y rhanbarthau er mwyn sicrhau cysondeb.

Caffael cwmnïau ar gyfer Adolygiad Bargen Dinesig Bae Abertawe a'r Strategaeth Economaidd ar gyfer rhanbarth Canolbarth Cymru

Yn dilyn proses gaffael agored penodwyd Actica Consulting gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar y cyd i gynnal yr adolygiad cyflym o Fargen Dinesig Bae Abertawe. Yn yr achos hwn, cafodd y tendr ei anfon i gwmnïau a oedd yn rhan o'n Fframwaith Ymgynghoriaeth Reoli CCS. Gwnaeth hyn ein galluogi i ddyfarnu tendr i gyflenwr a oedd eisoes â thelerau contract, prisiau a lefelau gwasanaeth a oedd wedi'u cymeradwyo, a hnny er mwyn bodloni anghenion y sefydliad.

Mae'n polisïau yn anelu at sicrhau mynediad i gyflenwyr llai a lleol. Er nad oes modd i fusnesau Cymru ennill pob contract rydym wedi dangos bod hyn yn bosibl. Mae data GwerthwchiGymru yn dangos bod BBaCh Cymreig wedi ennill 58% o'r contractau a hysbyswyd ar y safle yn ystod 2018/19. Lle y mae busnesau o'r tu allan i Gymru yn ennill ein contractau rydym yn anelu at sicrhau ein bod yn elwa i'r eithaf ar eu profiad.

Penodwyd Aecom gan Gyngor Sir Powys a oedd yn rheoli'r broses o gaffael ymgynghorwyr ar ran Partneriaeth y Canolbarth a oedd yn tyfu. Roedd y broses gaffael yn cydymffurfio â rheoliadau caffael y Cyngor, ac roedd y dyfarniad yn seiliedig ar broses dendro gystadleuol.

Rwy'n anfon copi o'r ymateb hwn at Ysgrifennydd Gwladol Cymru.

Yn gywir,

Ken Skates AC/AM
Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth
Minister for Economy and Transport